


# Ymgynghoriad cyhoeddus Criccieth: datblygu'r Cynllun Cymunedol



**Adroddiad terfynol  
Chwefror 2018  
gan Arwel Jones ac Ati**

# Ymgynghoriad cyhoeddus Criccieth: datblygu'r Cynllun Cymunedol

Arwel Jones a Moira K Stone

Chwefror 2018

---

0	Crynodeb gweithredol.....	3
1	Cyflwyniad.....	4
2	Dadansoddi'r holl sylwadau, holiaduron, llythyrau, ebyst a phoster y.....	4
2.1	Faint o ddeunydd?.....	4
2.2	Dadansoddi'r deunydd.....	5
3	Beth a ddywedodd yr holiaduron wrthom? .....	5
3.1	Ciplun o'r rhai a gwblhaodd yr holiadur .....	5
3.2	Pa gyfleusterau cymunedol sy'n bwysig i chi yng Nghriccieth?.....	7
3.3	Pa gyfleusterau cymunedol a hoffwch weld mwy ohonynt yng Nghriccieth? .....	8
4	Y byrddau hwyliau, y post-its a sylwadau eraill .....	9
4.1	Ymgynghori plant a phobl ifanc.....	9
4.2	'Cwmwl geiriau' fel un ffordd o gael ymdeimlad o'r holl sylwadau.....	9
4.3	Sylwadau am Griccieth yn gyffredinol .....	10
4.4	Sylwadau ar ardaloedd penodol.....	13
5	Casgliadau ac argymhellion .....	15
5.1	Edrych ar ôl yr hyn sydd gennym .....	16
5.2	Cywiros a datrys gwallau a phroblemau amlwg .....	17
5.3	Cynllunio a gweithredu i'r dyfodol .....	17

## 0 Crynodeb gweithredol

Cafwyd ymateb gwych i ymgynghoriad cyhoeddus Cyngor Tref Criccieth ynghylch y Cynllun Cymunedol newydd. Mynychodd rhwng 300 a 400 o bobl Ddiwrnod Agored ar 23 Medi 2017, a chwblhaodd bron i 100 holiadur. Dywedodd cyfanswm o 30 o bobl eu bod â diddordeb mewn gwirfoddoli gyda phrosiectau cymunedol a rhoddodd hwy eu manylion.

Er bod pwyslais cryf i gynnwys plant, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (84%) dros 40.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn credu bod yr holl gyfleusterau cymunedol yn bwysig. Yr oedd ymhell dros dri chwarter yn cydnabod a gwerthfawrogi natur, tirwedd a glan y môr Criccieth - y cyd-destun lle leolir Criccieth, ei drigolion, ymwelwyr a gweithgareddau i gyd.

O ran cyfleusterau cymunedol y byddai ymatebwyr yn hoffi gweld mwy, cyfleusterau cymunedol ar gyfer pobl ifanc oedd y categori a ddewiswyd amlaf, yn nodedig wrth gofio bod y rhan fwyaf o ymatebwyr dros 40 oed.

Cynhyrchwyd 'cymylau geiriau' cyfatebol Cymraeg a Saesneg i gael ymdeimlad o'r holl sylwadau a wnaed mewn holiaduron a llythyrau, ar y 'post-its' a phoster y plant. Mae'n amlwg mai 'parcio' yw cur pen i lawer, ac mae 'cadw Criccieth yn lân a thaclus' yn awydd llawer o ymatebwyr.

Mae'r adroddiad yn trafod sylwadau am Griccieth yn gyffredinol, o ran yr amgylchedd; parcio, rheoli traffig ac arwyddion; gwasanaethau a thaclusrwydd; diwylliant a chymdeithas; pobl ifanc; a ffitrwydd a chwaraeon.

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau penodol am fyrddau hwyliau, a gynhyrchwyd gan bensaer, gan ddangos posibiliadau mewn nifer o ardaloedd yn y dref: Abereistedd, Tyn Rhos / Waen Helyg / Gerddi Arfon, Min-y-Môr / Crescent, a Y Maes / Promenâd / Pencei .

Daw'r adroddiad i ben trwy wneud argymhellion o dan dri phennawd, a awgrymir gan gyfraniadau'r ymatebwyr:

- **Gofalu am yr hyn sydd gennym**
- **Cywiro a datrys diffygion a phroblemau amlwg**
- **Cynllunio a gweithredu ar gyfer y dyfodol.**



# 1 Cyflwyniad

Tref fechan o 1,753 o bobl sy'n byw mewn 801 o aelwydydd (ffigurau 2011) yw Criccieth.<sup>1</sup>

Mae'r Cyngor Tref wedi bod yn ystyried dyfodol y dref ac mae'n gweithio ar Gynllun Cymunedol er mwyn gwella ei lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'n dymuno 'gweithio mewn partneriaeth â phreswylwyr y dref, grwpiau cymunedol a busnesau lleol gyda'r nod o wneud Criccieth yn lle gwell fyth i fyw ynddo ac i ymweld', fel y mae Cadeirydd y Cyngor Tref, y Cyngorydd Sian Williams, wedi esbonio. I'r perwyl hwnnw, cynhaliwyd Diwrnod Agored yn Neuadd Goffa rhwng 11am a 4pm ar 23 Medi 2017 er mwyn cynfasio barn ac ysgogi syniadau. Derbyniodd holl gartrefi Criccieth daflen am y Diwrnod Agored ac roedd y drysau ar agor i bawb o bob oed. Gwnaed ymgais benodol i groesawu plant a phobl ifanc gyda lluniaeth a hufen iâ ac adloniant bywiog gan y cyflwynydd teledu Anni Llŷn.

Rhodddwyd groeso i'r rhai a fynychodd ac fe'u hanogwyd i roi sylwadau ar syniadau a chynlluniau drafft a baratowyd gan bensaer, cyflwyno syniadau newydd ar gyfer y Cynllun trwy 'post-its' a phosteri, llenwi'r holiadur ac i ddod i adnabod lluo o glybiau a chymdeithasau Criccieth sydd oll yn croesawu aelodau newydd.

Roedd 300 a 400 o drigolion ac ymwelwyr yn bresennol yn y Diwrnod Agored, ac roedd yna gyffro go iawn am y digwyddiad. Roedd yn gyfle gwych i ysbryd cymunedol, mewn siâp clybiau, grwpiau a chymdeithasau, i ffynnu.

*Diolch am y cyfle i roi mewnbwn ac am ddigwyddiad da yn y Neuadd i hybu'r ymgynghori.  
Diolch am drefnu'r digwyddiad heddiw.*

## 2 Dadansoddi'r holl sylwadau, holiaduron, llythyrau, ebyst a phoster y

### 2.1 Faint o ddeunydd?

Cynhyrchodd y Diwrnod Agored gyfoeth o ddeunydd yn Gymraeg, Saesneg a chymysgedd o'r ddau:

- 95 o holiaduron wedi'u cwblhau
- 220 'post-its' - ymateb i'r byrddau hwyliu ar gyfer gwahanol ardaloedd yn y dref
- sylwadau a lluniadau ar boster y plant
- negeseuon e-bost a llythyrau a anfonwyd yn hwyrach.

Mae hwn yn ymateb gwych ond mae'n bwysig cadw ychydig o bwyntiau mewn golwg:

- Nid oedd nifer o drigolion Criccieth wedi mynychu, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd (gweler 3.1).
- Lluniwyd yr holiadur a'i gwblhau cyn ystyried dadansoddiad. Golygai hyn fod rhywfaint o ddadansoddiad a gosodiad mewn cyd-destun yn cael eu gwahardd.
- Roedd sylwadau 'post-it' yn cynnwys y sylwadau cyffredinol a'r rhai penodol, ac nid oedd pob un o'r sylwadau penodol ynghlwm wrth y daflen fwrdd hwyliu perthnasol.

---

<sup>1</sup> <https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Key-statistics-and-data/Area-Profiles---Gwynedd-and-comparable-areas/Dwyfor/Ward-Profile-Criccieth.pdf>

Yr oedd 823 gwryw (46.9%) a 930 benyw (53%)

Yn fwy na hynny, ysgrifennodd rhai pobl eu sylwadau mwy nag unwaith (yn Gymraeg, yn Saesneg, yn sownd ar nifer o daflenni ...) i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu neges drosodd! Mae hyn yn golygu nad yw'n bosib cyfrif sylwadau ar un pwnc yn unig, ond mae'n sicr yn bosibl cael argraff gyffredinol o deimladau pobl.

## **2.2 Dadansoddi'r deunydd**

Gosododd cyfarfod gyda Chlerc y Cyngor Tref yr olygfa o ran yr hyn a ddigwyddodd gyda'r ymgynghoriad hyd yn hyn a'r materion 'poeth' cyfredol yng Nghriccieth.

Dadansoddwyd yr holiadur yn rhannol gyda llaw, ac yn rhannol gan ddefnyddio'r meddalwedd poblogaidd o'r enw SurveyMonkey (lle mae ymatebwyr fel arfer yn cwblhau holiadur ar-lein ond, yn yr achos hwn, cafodd holiaduron wedi'u cwblhau eu cofnodi â llaw).

Cafodd y 'post-its' eu trawsgrifio, a darllenwyd llythyrau a negeseuon e-bost.

Dadansoddwyd y swm helaeth o ddeunydd ansoddol mewn dwy iaith gyda llaw a'i redeg trwy wefan 'cwmwl geiriau' i gynhyrchu'r cymylau geiriau Cymraeg a Saesneg. Echdynwyd dyfyniadau a oedd yn arbennig o enghreifftiol ac fe ymddangosant yn yr adroddiad hon.

## **3 Beth a ddywedodd yr holiaduron wrthom?**

### **3.1 Ciplun o'r rhai a gwblhaodd yr holiadur**

Dychwelwyd cyfanswm o 95 o holiaduron. O'r rhain, roedd 71 o ymatebwyr yn byw o fewn ffiniau Cyngor Tref Criccieth, roedd chwech yn byw yn Llanystumdwy, dau yn byw yn Nolbenmaen, dywedodd dau eu bod yn ymwelwyr (dau holiadur, tri o ymwelwyr) a 14 (wyth yn Saesneg, pump yn Gymraeg, un heb eiriau ) ddim yn dweud ble roeddent yn byw.


Roedd y nifer cymharol fach o holiaduron yn golygu nad oedd yn bosib croesdablu gwahanol newidynnau gydag unrhyw sicrwydd.

Roedd yr holiaduron yn adlewyrchu cymuned weithredol a chyfranogol Criccieth, gyda thraean o'r ymatebwyr i'r holiadur (30 o bobl) yn dweud eu bod â diddordeb mewn gwirfoddoli gyda phrosiectau cymunedol a rhoi eu manylion cyswllt. Rhoddwyd eu manylion ar wahân i'r Cyngor Tref.

Rhoddodd cyfanswm o 82 o bobl eu hoedran ar yr holiadur.

## Beth yw eich oedran? Ticiwch yr ateb What is your age? Tick answer

Answered: 82 Skipped: 13



ANSWER CHOICES	RESPONSES
▼ 17 neu iau/or younger	4.88% 4
▼ 18-25	1.22% 1
▼ 26-39	9.76% 8
▼ 40-54	19.51% 16
▼ 55-64	25.61% 21
▼ 65-79	31.71% 26
▼ 80+	7.32% 6
<b>TOTAL</b>	<b>82</b>

Dim ond saith o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn am anabledd. Yn gyffredinol mae pobl yn amharod i ddatgelu unrhyw anabledd mewn holiaduron ac nid yw hyn yn eithriad. Roedd nifer o sylwadau (am fynediad, diogelwch a seddi, er enghraifft) ar y 'post-its' gellid eu cysylltu ag anabledd. Gwyddom o Gyfrifiad 2011, er enghraifft, bod 412 o bobl yn Criccieth â salwch hirdymor cyfyngol. Mae hynny'n 23.5% o'r boblogaeth, o'i gymharu â 20.5% yng Ngwynedd a 22.7% yng Nghymru.<sup>2</sup>

Yn gyffredinol, mae pobl hefyd yn amharod i ateb cwestiynau cydraddoldeb. Rhestrod yr holiadur hwn bedair categori o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac atebodd pump ymatebydd.




<sup>2</sup> <https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Key-statistics-and-data/Area-Profiles---Gwynedd-and-comparable-areas/Dwyfor/Ward-Profile-Criccieth.pdf>

### 3.2 Pa gyfleusterau cymunedol sy'n bwysig i chi yng Nghriccieth?

Pa gyfleusterau cymunedol sy'n bwysig i chi yng Nghriccieth? (Ticiwch pob un sydd yn berthnasol) Which community facilities are important to you in Criccieth? (Tick each one which is appropriate)

Answered: 95 Skipped: 0



ANSWER CHOICES	RESPONSES
▼ Chwarae i blant/Children's play	51.58% 49
▼ Chwaraeon a hamdden/Sports and Recreation	62.11% 59
▼ I bobl ifanc/For young people	60.00% 57
▼ I bobl hŷn/For older people	56.84% 54
▼ Diwylliant a threftadaeth/Culture and heritage	69.47% 66
▼ Natur, thirwedd, glan môr/Nature, landscape, seaside	83.16% 79
▼ Arall: Nodwch yma/Other: Please note here	Responses 40.00% 38
<b>Total Respondents: 95</b>	


Roedd yna ledaeniad da a gweddol wastad ar draws yr holl opsiynau. Gyda nifer cymharol fach o ymatebwyr, nid yw'n bosibl dweud gydag unrhyw sicrwydd fod un categori o gyfleusterau cymunedol yn bwysicach nag un arall. Fodd bynnag, gallwn ddweud bod llawer mwy na thri chwarter yr ymatebwyr (83.2%, 79 o bobl) yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi natur, tirwedd a glan y môr fel y cyd-destun lle mae Criccieth, ei drigolion, ymwelwyr a gweithgareddau wedi eu lleoli.

*There is no point improving any of the facilities if we're not going to protect the environment. That's what attracts people here to live and visit. Most important: preserving the marine and surrounding environment.*

### 3.3 Pa gyfleusterau cymunedol a hoffwch weld mwy ohonynt yng Nghriccieth?

Pa gyfleusterau cymunedol fasa chi'n hoffi gweld mwy ohonno yng Nghriccieth? (Ticiwch bob yn sydd yn berthnasol a rhowch syniadau/esiamplau isod)/Which community facilities would you like to see more of in Criccieth? (Tick each one which is appropriate and give ideas/examples below)

Answered: 90 Skipped: 5



ANSWER CHOICES	RESPONSES
Chwarae i blant/Children's play	36.67% 33
Chwaraeon a hamdden/Sports and Recreation	47.78% 43
I bobl ifanc/For young people	54.44% 49
I bobl hŷn/For older people	35.56% 32
Diwylliant a threftadaeth/Culture and heritage	48.89% 44
Natur, thirwedd, glan môr/Nature, landscape, seaside	48.89% 44
Arall: nodwch yma os gwelwch yn dda/Other: please note here Esiamplau/syniadau newydd ar gyfer datblygu Criccieth/Examples/new ideas for developing Criccieth	<a href="#">Responses</a> 74.44% 67

Total Respondents: 90

Unwaith eto, gwasgarwyd yr ymatebion yn dda ac yn deg ar draws yr opsiynau. Mae'n nodedig mai cyfleusterau cymunedol ar gyfer pobl ifanc oedd y categori a ddewiswyd amlaf gan fod 64% o ymatebwyr holiaduron a roddodd eu hoedran dros 55 (ac roedd 84% dros 40).





## 4 Y byrddau hwyliau, y post-its a sylwadau eraill

### 4.1 Ymgynghori plant a phobl ifanc

Rhoddodd y Cyngor Tref bwyslais arbennig ar ymgynghori â phlant a phobl ifanc, ac fe gafwyd cyfranogiad brwd. Cafwyd rhai syniadau gwych. Llithren o'r castell i'r môr! Hufen iâ 'Criccieth' arbennig! Cerflun o un o'r cyfranogwyr ei hun! Roedd yna rai pledion o'r galon fel hyn:


*Football nets please. Urgent!*

### 4.2 'Cwmwl geiriau' fel un ffordd o gael ymdeimlad o'r holl sylwadau

Mae'r 'cymylau geiriau' Cymraeg a Saesneg wedi cael eu cynhyrchu o'r holl ddeunydd ansoddol a gynhyrchwyd. Hynny yw, yr holl 'post-its't, y sylwadau 'eraill' yn yr holiaduron, y llythyrau a'r poster plant. Maent yn nodi pa mor aml y gwnaed sylwadau mewn categorï penodol.

Mae'n werth cofio ychydig o bwyntiau. Mae rhai o'r categorïau yn dangos awydd penodol am rywbeth (er enghraifft, 'keeppublictoilets'). Mae categorïau eraill ('siopau', er enghraifft) yn dangos bod y pwnc yn cael ei drafod.





### 4.3 Sylwadau am Griccieth yn gyffredinol

#### 4.3.1 Yr amgylchedd

Drosodd a throsodd, ac mewn gwahanol eiriau, dywedodd pobl fod angen gofalu am yr hyn sydd gan Griccieth eisoes.

*Do not overdevelop and spoil the beauty.*

*You have a wonderful climate, parks and gardens.*

*There must be progress to improve our wellbeing in all aspects, but first take care of what we already have.*

*What are we doing to protect the honeycomb reef on the West Beach? Would it be a plan to make Criccieth an 'Environmental Town'?*

*Picture boards showing which animals can be found in the rockpools*

*Fasa'n well trwsio'r bôcs sydd yna cyn gwario mwy!*

*Keep Criccieth upmarket, clean and tidy.*

*Atal torri coed yn y dref.*

*Are trees going to be replanted (that have been cut down in town)?*

#### 4.3.2 Parcïo, rheolaeth traffig ac arwyddion

Mae'n amlwg bod parcïo, rheoli traffig ac arwyddion yn gur pen go iawn i lawer iawn o bobl.

Roedd yr argraff pendant pe bai hyn yn cael ei ddatrys, neu hyd yn oed rhywfaint o waith yn cael ei wneud tuag at ddatrys y broblem, byddai bywydau pobl yn cael eu gwella'n ddramatig.

Roedd yna lawer o sylwadau amrywiol ynghylch anhawster parcïo i drigolion (yn enwedig yn y Stryd Fawr) ac i ymwelwyr nad ydynt yn gallu dod o hyd i'r prif faes parcïo.

*Provide spaces for residents of High Street to park in car park as we have no parking of our own. So that the space around the street doesn't get clogged up with us.*

Mae arwyddion yn brin ac mae rhai o'r rhai sy'n bodoli eisoes yn ddryslyd.

*Signage for main car park.*

*Mwy o arwyddion o gwmpas y dref i gerddwyr wybod ffordd i gyrraedd llefydd.*

*Arwydd byst o Min y Mor i'r Parc/gorsaf tren.*

*Information signs about Criccieth, showing directions to Castle etc.*

Argymhellwyd cyfyngiadau cyflymder, yn enwedig ar hyd Marine Terrace, ond hefyd mewn mannau eraill.

*Before a child loses a life, a traffic calming roundabout is needed on the B4411 between Tyn Rhos and Waen Helyg, especially if more houses are to be built!*

#### **4.3.3 Gwasanaethau a thwtrwydd**

Mae pryder mawr bod Criccieth yn mynd i lawr yr allt. Gwnaed sylwadau am ganfyddiad gwasanaeth torri gwair gwael a rhy anaml Cyngor Gwynedd, cyflwr gwrychoedd a llwybrau, cadw a gwella toiledau cyhoeddus, cau'r llyfrgell a dyfodol yr adeilad hwnnw.

*Llwybrau Ysgol – Dinas – Steshion o hyd y flêr a budur. Rhaid i Gyngor Gwynedd eu cadw'n daclusach!*

*From the large car park to Ysgol Treferthyr, clear that we suffer from overgrown paths, hedges, general untidiness. Work parties to clear, making Criccieth tidier/cleaner. Talk to Bowling Club – see if they can cut the grass (for a fee).*

Gwnaed llawer o sylwadau ynghylch biniau, hylendid a phlâu.

*Rubbish bins need emptying twice a day, especially in summer.*

*Bins wahanol am ailgylchu ar y prom: metal, papur ayyb.*

*Litter bins up by Caernarfon Road by seating areas and bus stops.*

*More dog waste bins.*

*Better rodent control by bins on the Esplanade green areas.*

*Litter group to organise litter picks around town.*

*Biniau ail-gylchu drwy'r dref.*

Daliodd ymatebwyr nifer o safiadau ar siopau, gan gynnwys cadw siopau presennol, presenoldeb neu beidio o archfarchnad fach, denu siopau o ansawdd a siop a gynhelir gan y gymuned.

*Community shop run by volunteers, selling greengrocery, fish etc.*

*Keep good quality shops on High Street – business rates!*

#### **4.3.4 Diwylliant a chymdeithas**

Mae Criccieth yn le gweithgar iawn gyda llawer iawn yn digwydd, ond sut mae pobl yn darganfod beth sy'n digwydd? Croesawyd y Diwrnod Agored am y ffordd y cododd broffil grwpiau a

chymdeithasau, ond gellid gwneud mwy i ddarparu, er enghraifft, un lle y gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth.

Nid oedd ymatebwyr yn dal yn ôl o nodi cyfleoedd posibl i'r gymuned.

*Cymryd hen adeilad [llyfrgell] drosodd a'i addasu ar gyfer defnydd cymunedol e.e. lle i bobl ifanc a clybiau a chysiau.*

*A ydi'r Cyngor yn medru cefnogi croesdoriad o weithgareddau cymdeithasol mewn modd ymarferol gan gyfrannu peth adnoddau e.e. prynu offer, gwella adeilad, cyllido digwyddiadau, talu costau?*

*Community shop run by volunteers, selling greengrocery, fish etc.*

*Welsh conversation club for English speakers.*

*Mwy o gydweithio hefo darparwyr gwersi Cymraeg er mwyn cynnig gwersi Cymraeg i ddysgwyr yn lleol + hybu a marchnata hyn - gwneud hi'n haws i bobl ddysgu'r iaith.*

*Llefydd cymunedol aml-bwrpas e.e. ar gyfer cynnal cysiau, clwb llyfrau a.y.y.b.*

*Ysgol newydd i cynnwys gofod ar gyfer llyfrgell a defnydd cymunedol.*

Cynhyrchodd yr ymgynghoriad geisiadau i wybod mwy am y Cyngor Tref, i fynychu cyfarfodydd ac am fwy o dryloywder.

*Gweithgareddau'r Cyngor yn fwy tryloyw.*

*Ydych chi'n gallu trefnu fforwm agored yn y Neuadd rhwng y cynghorwyr a'r cyhoedd fel y bo modd i drafod y syniadau yn agored?*

#### **4.3.5 Pobl ifanc**

Mae'r gymuned yn poeni fwyaf am gefnogi ac annog ei phlant a'i phobl ifanc, yn awr ac i'r dyfodol. Y teimlad yw y dylai Criccieth fod yn fan iddyn nhw barhau a ffynnu, pe baent yn dymuno hynny.

Mae gan blant a phobl ifanc ran i'w chwarae yn eu cymuned a phwysleisiodd yr ymatebwyr y dylent gymryd mwy o ran wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys efallai ar y Cyngor Tref.

*Angen llais yr ieunctorid ar y Cyngor Tref.*

*Get children more involved in decisions.*

*Young people, especially teenagers, seem to have little to 'retain' them. Can't we have a Youth Council to encourage them to be proud of Criccieth?*

Mae plant iau angen ardaloedd chwarae diogel (gweler mwy o sylwadau yn adrannau 4.4.1 Abereistedd a 4.4.2 Tyn Rhos) a theuluoedd angen rhywle i gwrdd. Mae angen gweithgareddau ar blant a phobl ifanc hŷn, a thai wrth iddynt dyfu i fyny.

*Angen llefydd cymdeithasu i deuluoedd.*

*Llefydd cymunedol aml-bwrpas i bobl ifanc e.e. i band ymarfer.*

*Mwy o glybiau chwaraeon i blant (fel oedd 20 mlynedd yn ol). Cofiwch am blant Criccieth? A shared area that could be used for primary school age (cold winter months) and in turn the teenagers who have nowhere to congregate.*

*Somewhere for young adults to meet and stop drinking on the village greens. Youth club / young adult meeting area.*

*Need something for young adults/teenagers. What about the old library building?  
Somewhere for young adults to socialise. Festival needs to improve to accommodate young  
children/young adults.*

#### **4.3.6 Ffitrwydd a chwaraeon**

Ymddengys bod ffitrwydd a chwaraeon o bob math yn rhan allweddol o fywydau nifer o drigolion Criccieth a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad. Croesawyd y syniad eang o offer ac ardaloedd ffitrwydd gan nifer o bobl. Yn gyffredinol, gwelwyd gwahaniaeth rhwng ardaloedd chwarae (ar gyfer plant o gwmpas oedran ysgol gynradd) ac offer/ardaloedd ffitrwydd (ar gyfer pobl o bob oed).

*Offer ymarfer corff tu allan – am ddim i bawb.*

*Skate park – a quality concrete facility that would attract surf tourists as well as being 4  
local kids.*

### **4.4 Sylwadau ar ardaloedd penodol**

#### **4.4.1 Abereistedd**

Disgynnodd ymatebion i fwrdd hwyl Abereistedd i mewn i dri phrif gategori.

1. Roedd gwrthwynebiadau penodol i'r syniad o offer chwarae/ffitrwydd yn yr ardal hon oherwydd y byddai'n tynnu oddi wrth harddwch naturiol yr ardal (gyda lle chwarae naturiol yn union yno - ar y traeth), yn denu gweithgaredd annymunol a byddai'n cael effaith andwyol ar breswylwyr lleol.
2. Gwnaed sylwadau penodol ynghylch offer chwarae i blant: y dylid gwella'r ardal chwarae bresennol ger Ysgol Treferythyr ac y byddai man chwarae diogel yn Tyn Rhos yn syniad gwell ac wir ei angen (gweler 4.4.2).

*Don't have playground on the Marine – make the existing one much better. Also low  
hedges.*

3. Sylwadau cyffredinol am ffitrwydd ac offer ffitrwydd (gweler 4.3.6). Gwnaed un neu ddau o sylwadau o blaid 'ardal ffitrwydd' yn hytrach na maes chwarae.

*Desperately needed outdoor fitness equipment for young adults/all ages!  
Fitness area is a great idea*

Roedd sylwadau aml eraill yn ymwneud â'r angen am well biniau sbwriel a'r dymuniad i wahardd jet sgis.

*Pointy tops to rubbish bins. Stop gulls.  
No jet ski launch from West Beach.*

Cafwyd sylwadau am edrychiad yr ardal.

*Gwella edrychiad a chyflwr y llethr uwchben traeth Abereistedd*

Ymddengys sylwadau am reoli traffig a pharcio'n aml yma, fel y gwnaethon nhw trwy'r dref.

#### 4.4.2 Tyn Rhos / Waen Helyg / Gerddi Arfonia

Roedd y rhan fwyaf o sylwadau'n benodol am yr ardal hon yn ymwneud â'r angen am fwy o leoedd diogel i blant chwarae.

*More things up Tyn Rhos way.  
Angen mwy o lefydd chwarae i blant.  
Cae chwarae yn Tyn Rhos.  
Lle diogel i blant feicio, cicio pêl ayyb. Heb faw cŵn.*

#### 4.4.3 Min y Môr / Crescent

Denodd yr ardal hon lawer iawn o sylw am reoli traffig (yn arbennig cyfyngiadau cyflymder a'i wneud yn unffordd) a pharcio. Croesawyd syniad y llwybr.

*One-way traffic on Marine Terrace. Reduce speed to 10-20mph  
Western Beach Connect – brilliant!  
Walkway along the shore is a good idea but pavement is also needed at road level.*

Roedd rhai o blaid llochesau, ond nododd eraill, efallai yn fwy ymarferol, y byddent yn cael eu dinistrio'n gyflym gan stormydd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn dilyn y trywydd hwnnw, ni ystyriwyd bod barbeciw yn syniad synhwyrol. Os rhywbeth, fe ystyriwyd peiriannau ffitrwydd yn well. Roedd pledion i gadw'r toiledau cyhoeddus. Dylid gwella mynediad a chynnal traeth a môr.

*Ramps to beach on West Parade  
Improve boat launching facilities by lifeboat station. Improve beach from Aberistedd to Morannedd.  
Fasa'n well trwsio'r bôcs sydd yna cyn gwario mwy!  
Slipway for small boats Marine side.  
Porthladd i gychod hwyllo ger y Castell.  
Green sedum trays anchored to concrete sea wall slopes.*

#### 4.4.4 Y Maes / Promenâd / Pencei

Nododd sylwadau am yr ardal brysur hon nad yw'n 'hongian gyda'i gilydd'. Mae'r diffyg cydlynad hwn yn cynnwys arwyddion, llwybrau a seddi.

*Twtio'r arwyddion priffyrdd o gwmpas y maes. 'Brandio' binia sbwriel metel ac arwyddbyst safonol o fewn y dre i roi cyfeiriad i wahanol ardaloedd a nodweddion yn y dre.  
Gwella y Maes fel lle cymunedol e.e. lle eistedd, lle dan do mawr, lle i bobl gynnal digwyddiadau bach awyr agored.*

Nid oes system arwyddion synhwyrol ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau (gweler 4.3.2). Mae'n ymddangos fod llwybr treftadaeth ond nid oes arwyddion ar hyd y ffordd.

*Tacluso'r arwyddion o gwmpas y Maes (arwyddion 'Highways').*

Mae llwybrau, yn ogystal â diffyg arwyddbyst, yn anhyblyg ac mae'r ardal frics coch, yn arbennig, yn beryglus yn y gwlyb.

*Sicrhau fod y brics coch am y Maes yn ddiogel (slippery iawn yn y glaw).*

Nid oes digon o seddi.

*Reinstate seating on wall along Promenade.*

Ac ar bwnc dŵr, dylid gwella draeniad, gallai cawodydd ger y traeth ddarparu cyfleuster defnyddiol a ...

*Why not a fountain on the Maes? All that free water going to waste. Or even a park.  
Angen agor y ffosydd yn yr ardd wyllt.  
Open showers on green by the beach.*

## 5 Casgliadau ac argymhellion

Mae datblygu Cynllun Cymunedol yn cynnig cyfleoedd gwych i adeiladu ar weithgareddau presennol Criccieth a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cymunedol, a gweithio tuag at gymuned werdd, iach a chynaliadwy. Efallai y gallai hyd yn oed fod yn 'Dref yr Amgylchedd', fel y awgrymodd un o'r trigolion. Fel cefndir, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo gweithgaredd mwy integredig a chyd-ddatblygiad atebion cymunedol, ac efallai y bydd Criccieth yn dod o hyd i gymorth yma.

Mae'r bobl hynny a ddaeth i'r Diwrnod Agored a chymerodd yr amser i gwblhau'r holiadur a rhoi eu hymatebion i rai o'r syniadau ar y 'byrddau hwyliau':

- yn hoffi Criccieth yn fawr iawn ac eisiau'r gorau i'r dref.
- yn pryderu am yr amgylchedd ehangach - y môr, y traeth, y coed, y gwrychoedd a'r gwyrdd.
- yn pryderu am y dirywiad o fwynderau dinesig a gwasanaethau sy'n mynd tuag at wneud lle gwâr a dymunol i fyw - cerdded yn ddiogel, toiledau cyhoeddus, torri glaswellt a gwrych, y llyfrgell.
- yn pryderu am iechyd y rhai sy'n byw yn y dref ac yn ymweld - ysbwriel a threfniadau glanweithdra ond hefyd chwarae a ffitrwydd.
- yn arbennig o bryderus ynghylch dyfodol pobl ifanc sy'n byw yng Nghriccieth. Mae nhw eisiau rhywle yn ddiogel i blant chwarae ac mae nhw am i'r dref fod yn rhywle lle gall pobl ifanc ffynnu a gallu parhau i fyw os ydynt am wneud hynny.
- yn deall eu bod yn rhannu Criccieth gydag ymwelwyr sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol ond sy'n ychwanegu at anawsterau traffig presennol, yn enwedig yn ystod y misoedd gwyliau arferol.

Roedd y gymuned yn amrywio'n eang wrth roi eu barn a rhannu syniadau, ac ddim yn cyfyngu eu hunain i'r byrddau hwyliau. Rydym wedi grwpio ymatebion i dri maes. Yn anochel, maent yn gorgyffwrdd ond mae hyn yn cynnig un ffordd o edrych ar yr hyn y mae Criccieth wedi dweud wrth Gyngor y Dref.

Mae Criccieth yn dymuno:

- gofalu am 'yr hyn sydd gennym'
- delio â namau a phroblemau amlwg sy'n taseilio Criccieth neu fel arall yn cyfyngu
- cynllunio a gweithredu ar gyfer y dyfodol.

## 5.1 Edrych ar ôl yr hyn sydd gennym

### Ysbryd cymunedol

O ystyried llwyddiant y diwrnod ymgynghori, mae yna bosibilrwydd y bydd mwy o ymgysylltiad rhwng y gymuned a'r Cyngor Tref.

Gallai'r Cyngor Tref gadw'r sgwrs gyda'r gymuned i fynd, er enghraifft, gan ystyried cyfarfodydd agored a darparu gwybodaeth am faterion a allai fod yn ddadleuol (megis torri coed).

Mae nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi dod ymlaen i helpu yn y dref yn galonogol iawn. A ellid dod â gwirfoddolwyr at ei gilydd i weithio ar lanhau'r traeth ac ardaloedd eraill?

### Yr amgylchedd a chynnal cyffredinol

Mae hyn yn cynnwys glendid a thaclusrwydd. Gall manteision cyflym gynnwys:

- datrys problem y drefn torri glaswellt. A allai sefydliadau cymunedol fel y Clwb Bowlio ymwneud â hyn?
- creu ardaloedd bywyd gwyllt cynnal a chadw isel lle nad oes angen torri gwair.
- plannu mwy o goed.
- plannu un neu fwy o erddi morwrol â phlanhigion sy'n gwrthsefyll halen. A allai sefydliadau cymunedol fel Criccieth in Bloom helpu yma?

### Plant a phobl ifanc

Roedd teimlad cyffredinol y dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac awgrymwyd nifer o wahanol ffyrdd. A yw fforwm pobl ifanc neu gynrychiolydd ieuenctid cyfetholedig ar y Cyngor Tref yn syniadau da? A ddylid fod cysylltiadau gyda'r ysgol gynradd neu ysgolion uwchradd a cholegau cyfagos? A all cyrff ieuenctid eraill gael eu cynnwys?

Pa bynnag lwybr y mae'r Cyngor Tref yn ei ddewis, awgrymwn fod ffocws clir a chyfleoedd realistig o newid yn golygu bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn well. Rydym hefyd yn awgrymu y dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys a'u hystyried ym mhob datblygiad.

Posibiliadau penodol yw:

- cydnabod anghenion chwarae plant yn y dref trwy uwchraddio a darparu arwyddion da i'r maes chwarae presennol, ac ystyried maes chwarae yn ardal Tyn Rhos.
- gwneud cysylltiadau rhwng pobl iau a phobl hyn yn y dref, efallai trwy gynnwys yr ysgol mewn ymweliadau â chartrefi gofal (fel yn Hen Blant Bach ar S4C) ond hefyd cynnwys pobl hyn yn yr ysgol.
- darparu rhywle i bobl ifanc gyfarfod (cyn rhy hir).



## 5.2 Cywiro a datrys gwallau a phroblemau amlwg

Mae rhai diffygion a phroblemau amlwg sy'n tanseilio neu'n cyfyngu'r dref fel arall.

### Rheoli traffig

Mae sut mae traffig (cerddwyr a cherbydau) yn cael ei reoli a'i hwyluso'n chwarae rhan fawr ym 'mhrofiad' pobl o le. Yma, rydym yn sôn am sut mae pobl yn gallu mynd o gwmpas eu bywydau bob dydd, pa rwystrau neu beryglon dianghenraid y maent yn dod ar eu traws, a sut maent yn teimlo am fyw mewn neu ymweld â lle. Byddai datrys anawsterau yng Nghriccieth yn gwneud gwahaniaeth mawr i lawer o drigolion ac ymwelwyr.

Mae'n ymddangos bod angen dull Criccieth-eang tuag at reoli traffig. Dylai hyn gynnwys:

- meysydd parcio presennol (cost, arwyddion, baeau preswylwyr yn unig)
- parcio ar y stryd ar gyfer trigolion (trwyddedau)
- cyfyngiadau parcio eraill (llinellau melyn a gwyn)
- cyfyngiadau cyflymder (er enghraifft, ar hyd Marine Terrace)
- gwahaniaethau tymhorol
- unrhyw fesurau tawelu traffig eraill (er enghraifft, ger Tyn Rhos a Waen Helyg)
- Arwyddion priffyrdd

### Arwyddion a chydlynid

Mae'n ymddangos y gallai Y Maes, yn arbennig, elwa o ddull integredig o ddodrefn stryd. Gellid ystyried arddull gyffredin ar gyfer arwyddion ledled y dref.

Byddai edrych arall ar faterion diogelwch a threfniadau eistedd hefyd o fudd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i ddweud bod gweithredoedd sy'n elwa pobl hŷn a phobl ag anabledd yn dueddol o fod o fudd i bawb.

### Mynediad i'r traeth a'r môr

Bydd y môr bob amser yn gymydog Criccieth. Gellir ystyried cyfleusterau lansio cychod a threfniadau mynediad fel bod pawb yn mwynhau'r traeth yn llawnach.

## 5.3 Cynllunio a gweithredu i'r dyfodol

### Adeiladu a datblygu cryfderau cymunedol Criccieth

Pan fydd un drws yn cau, dywedir bod un arall yn agor. A yw cau'r llyfrgell yn cynnig adeilad gyda'r potensial i fod yn ganolfan gymunedol? Efallai y bydd lle i gyfarfodydd bach, mentrau cymdeithasol (megis y siop gymunedol a grybwyllwyd yn ystod yr ymgynghoriad) a chartref i gyrff eraill. Peidiwch ag anghofio lle cyfarfod i bobl ifanc, wrth gwrs.

Gellid agor trafodaethau ynghylch posibiladau datblygu cymunedol gyda Cadw, gwarcheidwaid y Castell, 'preswlydd' eithaf mawr o Griccieth.

### Parhau i ddarparu a datblygu gwasanaethau cyhoeddus

Mae nifer o ymatebwyr yn cydnabod rôl y Cyngor Tref wrth sicrhau bod Criccieth yn lle gwâr i fyw, gweithio ac ymweld (yn enwedig trwy gadw toiledau cyhoeddus ar agor). Gallai fod yn werth chweil ymchwilio i ddarpariaeth manau poeth ar gyfer Wifi.

Mae'n arwydd da bod cymaint o wirfoddolwyr wedi camu ymlaen. Awgrymw'n bod eu cynigion o gymorth yn cael eu derbyn(o fewn y Cynllun Cymunedol) cyn gynted ag y bo modd.

Mae'n werth ystyried ymwybyddiaeth o Gyngor y Dref ac ymglymiad dinesig posibl. A oes lle i fforwm pobl ifanc neu gyfethol aelod iau o'r gymuned i Gyngor y Dref mewn swyddogaeth ymgynghorol?

### Sicrhau a chael budd o gymuned oed cymysg

Bydd gweithredu i gynnwys ac ystyried plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a gweithgareddau yn cyfrannu at gymuned iach o bob oed, y mae pawb yn elwa ohoni. Mae tai yn ddarn arall yn y jig-so, p'un a yw'n dai i bobl ifanc sy'n sefydlu ar eu hunain, neu fwy arbenigol ar ben arall y sbectrwm oedran, neu ar bwyntiau eraill yn y canol.

### Cadwch y modur economaidd yn rhedeg

Gallai adolygiad o gynnig manwerthu y dref gynnwys archwilio cyfleoedd busnes pwrpasol bach. Mae'n werth ymchwilio i'r syniad o siop gymunedol, a allai hefyd gynnig ac arddangos cynnyrch a chynhyrchion lleol.

Gallai Criccieth ddenu ymwelwyr y tu allan i'r misoedd gwyliau arferol. Gallai elfennau o gynllun rheoli cyrchfan yn seiliedig ar anghenion trigolion, ymwelwyr a'r amgylchedd ystyried, er enghraifft, syniadau ar gyfer twristiaeth gydol y flwyddyn wedi eu canolbwyntio ar ddiwylliant, cefn gwlad a bwyd.

